# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*
# *Harbour Consultative Committee*

***13 Mawrth / March 2012***

***Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report***

## *1 – Ffioedd a Thaliadau / Fees and Charges*

***1.1*** Cafodd y ffioedd a'r taliadau i Hafan Pwllheli ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor. Yn ogystal, cafodd y ffioedd a'r taliadau ar gyfer yr Harbwr Allanol ym Mhwllheli ac mewn harbyrau a thraethau eraill a reolir gan y Cyngor eu cefnogi a'u cymeradwyo gan yr Arweinydd Portffolio.

***1.2*** Atodir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r Hafan ac angorfeydd yn yr Harbwr Allanol ym Mhwllheli. Dylai Aelodau nodi ei bod yn ofynnol cynyddu'r ffioedd am angorfeydd yn Harbwr Allanol Pwllheli **5%.** Dyma'r cynnydd cyntaf o'i fath ar gyfer badau yn yr Harbwr Allanol. Gan ystyried statws bregus yr hinsawdd ariannol, mae Bwrdd y Cyngor wedi cefnogi'r argymhelliad na ddylid cynyddu ffioedd a thaliadau yn yr Hafan yn 2012. Yn ogystal, awdurdodwyd disgownt hael yn y ffioedd angori presennol a bydd hyn yn berthnasol i bob cwsmer sydd wedi cadarnhau ei fwriad o angori yn yr Hafan yn 2012. Bydd cymorth o'r fath gan Fwrdd y Cyngor a Swyddogion Statudol yn sicr yn cael ei werthfawrogi gan gleientiaid. Atodir copi, er gwybodaeth, o'r adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 1 Tachwedd 2011.

***1.3*** Heblaw am yr uchod, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r gyfradd chwyddiant gyda phob un pennawd yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd y gyfradd chwyddiant ar gyfer yr Harbwr Allanol ym Mhwllheli am 2012 yn **4.81%.** Mae hyn o'i gymharu â chyfradd chwyddiant negyddol o **0.13%** yn 2011. Rhagwelir y bydd y gyfradd chwyddiant ar gyfer Hafan Pwllheli yn 2012 yn **4.29%,** o'i gymharu â chyfradd chwyddiant o **1.90%** yn 2011. Bydd y targed incwm cyffredinol ar gyfer ardal yr Harbwr Allanol ym Mhwllheli yn 2012/13 yn **£123,810** (£118,130 yn 2011). Y targed incwm cyffredinol ar gyfer yr Hafan yn 2012 fydd **£1,607,470**. Yn gyffredinol, mae targedau incwm a thargedau gwariant yn cynyddu'n unol â'r gyfradd chwyddiant a ragwelir.

Mae'r cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol am 2012/13 yn **£97,590** sy'n cymharu gyda tharged a gynyddwyd o **£57,330** yn 2011/12. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol (heb gynnwys Parciau Gwledig) i **£2,467,550** yn 2012/13, targed sylweddol fydd yn her i'w gyrraedd yn yr hinsawdd economaidd fregus a chyfnewidiol sydd ohoni.

Bydd aelodau'n ymwybodol bod targed incwm Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol wedi llwyddo i gyrraedd ei darged yn y blynyddoedd a fu ac weithiau wedi rhagori ar y targed. Yn anffodus, yn 2011/12, rhagwelir y bydd diffyg bychan ym mantolen gyffredinol y gyllideb. O ystyried natur anrhagweladwy'r amgylchiadau economaidd byd-eang, bydd angen i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig weithredu er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdu ar y safonau ar gyfer ein cleientiaid.

***1.4*** Mae'r ffioedd a'r taliadau i gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol hefyd wedi cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Ffioedd Lansio yn aros fel y maent ac mae hyn wedi bod yn wir am y blynyddoedd diwethaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer wedi'i atodi.

## *2 -* ***Cyllidebau / Budgets***

Atodir copi o’r dadansoddiad ariannol o incwm a gwariant cyffredinol Hafan Pwllheli a Harbwr Allanol Pwllheli a’r Traethau ar 31 Rhagfyr 2011. Bydd aelodau’n sylwi bod y targed incwm sy’n ymwneud â Harbwr Allanol Pwllheli yn £118,130 ar gyfer 2011/12, a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 ond yn £89,130, gan adael diffyg sylweddol o £29,124**,** fydd yn rhaid ei adnabod o fewn penawdau cyllideb gwariant.

Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod mis Mawrth yn yr Harbwr Allanol ac felly mae’n annhebygol y bydd y targed incwm yn cyrraedd y targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol hon unwaith eto.

***2.2*** Bydd aelodau’n sylwi bod y targed incwm sy’n ymwneud â Hafan Pwllheli yn £1,567,470 ar gyfer 2011/12**,** a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 wedi cyrraedd £1,372,008, o’i gymharu ag incwm o £1,485,007 am yr un cyfnod y llynedd. Mae’r diffyg yn incwm Hafan Pwllheli ar 31 Rhagfyr 2011 yn £195,462, o’i gymharu â £77,623, yr un adeg y llynedd. Rhagwelir y gall targed incwm Hafan Pwllheli leihau fymryn o’r targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol hon. Er bod y diffyg yn ymddangos yn sylweddol ar 31 Rhagfyr 2011, rhagwelir y bydd y Gyllideb gyffredinol ar gyfer yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig o fewn y targed.

***2.3*** Fel y mae aelodau’n ymwybodol, mae’r ffi a roddir i Ystâd y Goron yn unol â’r cytundeb ar gyfer yr harbwr yn seiliedig ar incwm gros Hafan Pwllheli. Ers sawl blwyddyn bellach mae’r taliad a wneir i Gomisiynwyr Ystâd y Goron wedi bod yn 10% o’r incwm gros gydag incwm tanwydd yn eithriedig o’r cyfanswm incwm. Mae’r ffi a delir i Gomisiynwyr Ystâd y Goron yn 2011/12 yn aros yn 145k, sy’n swm sylweddol ond nid yw’n cynnwys y ffi sy’n daladwy am les y blaendraeth sy’n berthnasol i’r harbwr allanol a lesau blaendraethau eraill yng Ngwynedd. Gan dderbyn bod 145k yn swm sylweddol, gobeithir cychwyn trafodaeth ag asiant Comisiynwyr Ystâd y Goron yn y dyfodol agos gyda golwg ar drafod y cytundeb presennol gan, yn obeithiol, leihau’r swm sylweddol a delir i Gomisiynwyr Ystâd y Goron gan Gyngor Gwynedd.

***2.4*** Fel y bydd aelodau’n sylwi, mae’r gwariant hyd yma wedi bod y tu hwnt i’r gyllideb dan nifer o benawdau yn yr Harbwr Allanol ac yn Hafan Pwllheli ac mae hyn yn peri peth pryder gan y rhagwelir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Yn yr un modd â’r blynyddoedd a fu, bydd yr incwm ychwanegol a grëir yn cael ei ddyrannu i benawdau penodol er mwyn sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn cyrraedd y targed gofynnol. Bydd aelodau’n nodi cynnydd sylweddol mewn costau trydan o gymharu â chostau trydan yn 2007/08. Bydd y gwariant cyffredinol dan y pennawd cyllid trydan yn gostwng oherwydd bod y targed incwm ar y gyllideb incwm trydan wedi’i gyrraedd.

***2.5*** Gan ystyried bregrusrwydd parhaus yr hinsawdd economaidd bresennol o fewn rhai adrannau o’r diwydiant morwrol, bydd 2012 unwaith eto’n flwyddyn heriol i’r Uned Forwrol yn enwedig i harbyrau o fewn Gwynedd. Pwysleisir y bydd angen goresgyn unrhyw orwariant ac unrhyw ddiffyg incwm, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd y mae'r Awdurdod yn ei hwynebu.

## 3 ***Mordwyo / Navigation Angorfeydd / Moorings Carthu / Dredging***

***3.1*** Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r rhan fwyaf o'r cymhorthion mordwyo yn harbwr Pwllheli wedi'u gosod ar y Mur Hyfforddi a bu problemau dyrys gyda chael mynediad at rannau uchaf y pyst marcio er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. Erbyn hyn, mae pob un cymhorthydd wedi'i gynnal a'i gadw ac mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod cyflwr y cymhorthion mordwyo yn cael eu cadw i safon dderbyniol. Gan ystyried bod y sianel sy'n arwain at fasn y marina wedi newid yn sylweddol ers y datblygwyd yr harbwr yn wreiddiol, bydd arolwg o'r Cymhorthion Mordwyo yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf. Nid yw'r cymhorthion mordwyo sydd ar hyn o bryd wedi'u lleoli ar yr adain hyfforddi bellach yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau ac mae'n bosib y bydd yn rhaid gosod cymhorthion mordwyo newydd yn yr ardal fwyaf priodol o'r sianel.

Er y rhagwelir mai cymhorthion mordwyo sy'n arnofio fyddai'r dull mwyaf cost effeithiol o farcio'r sianel a'r dull mwyaf ymarferol o wneud hynny, rhoir ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddefnyddio strwythurau mwy parhaol ar gyfer y diben hwn. Byddai'r gost o brynu a gosod y Pileri Mordwyo yn cyfyngu ar yr ystyriaeth hon.

***3.2*** Yn ddiweddar, daethpwyd a'r Bwi Sianel Fordwyo i'r lan er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal arno ac mae'r bwi wedi'i osod yn ôl yn ei le erbyn hyn. Mae'r bwiau mordwyo Port sydd wedi eu lleoli yng ngheg yr harbwr wedi eu huwchraddio a byddant yn aros yn eu lle presennol yn y dyfodol rhagweladwy.

3.3. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa gyfredol ynglŷn â'r deunydd sy'n cael ei ddyddodi yng ngheg yr harbwr mewnol, penodwyd contractwr yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r prosiect hwn a bydd gwaith yn dechrau ar symud deunydd o geg yr harbwr yn ystod Gŵyl y Pasg. Rydym yn sicrhau morwyr na fydd y gwaith hanfodol hwn yn cael effaith ar fordwyo i'r rhai hynny sy'n mynd i'r môr neu yn dod ohono yn ystod Gwyliau'r Pasg. Fel y dangoswyd gan waith cyffelyb yn y gorffennol, mae'n eithaf tebyg y bydd dyfnder y dŵr yn yr ardal hon yn lleihau erbyn y cwblheir y gwaith.

Bydd y gwaith o symud y deunydd a ddyddodwyd o geg yr harbwr yn cael ei wneud gan ddefnyddio peiriannau sydd wedi'u lleoli ar y tir a bydd y deunydd a garthir yn cael ei storio ar y safle stoc-bentyrru presennol. Mae'r stoc bentwr presennol o ddeunydd sydd wedi'i storio ar y lan yn y broses o gael ei symud i Garreg y Defaid i gyd fel rhan o raglen adfer y traeth. Yn y blynyddoedd a fu, roedd cymorth grant hyd at werth 85% o gyfanswm y gost ar gael i waith adfer traethau, ond nid oedd cymorth grant ar gael i'r prosiect hwn. Roedd yn rhaid adnabod y cyllid ar gyfer y gwaith hwn o fewn cyllideb yr Uned Forwrol. Bydd y gost o symud y deunydd o'r stoc bentwr i Garreg y Defaid ynghyd â'r gost o garthu ceg yr harbwr oddeutu 110k.

Fel mesur pellach er mwyn gwella mordwyo i gychod sy'n mynd a dod o harbwr Pwllheli, adnabuwyd a daethpwyd i'r casgliad bod yn rhaid symud nifer o byst angori o'r ardal gyfagos i'r llithrfa gyhoeddus. Nodwyd y bydd yn rhaid i byst angori rhif 34 i 38, ynghyd a physt angori rhif 39 i 50 gael eu symud o'r harbwr yn gyfan gwbl.

Gan ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, cyflwynwyd cais am Drwydded Forwrol i Uned Caniatadau Morwrol, Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2011. Gwahoddwyd cwmnïau addas i gyflwyno tendrau am y gwaith a rhagwelir y bydd gwybodaeth bellach ynghylch y cwmni llwyddiannus a'r dyddiad cychwyn ar gael i aelodau yn y cyfarfod.

Er na fydd cyfanswm o 30 o byst angori bellach ar gael yn yr Harbwr Allanol, bydd symud y pyst angori yn sicrhau y bydd rhai dosbarthiadau o gychod yn medru mordwyo'r sianel waeth beth fo cyflwr y llanw. Bydd Aelodau'n ymwybodol bod y sianel wedi sefydlogi yn yr ardal hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly mae'n ddoeth ymgymryd â'r gwaith hwn. Yn y tymor hir, bydd symud y pyst o fantais i'r harbwr yn gyffredinol a bydd yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â charthu'r sianel a chael gwared â'r dyddodion yn sylweddol. Sicrheir y bydd cwsmeriaid sy'n cael eu heffeithio drwy golli'r angorfeydd yn cael eu lleoli yn rhywle arall yn yr harbwr.

Ar ôl cwblhau'r gwaith o garthu ceg yr harbwr a symud y pyst angori, ymgymerir ag arolwg hydrograffigol manwl o'r harbwr.

Gan fod y gwaith y cyfeirir ato uchod yn waith sylweddol, bydd yr Harbwr Feistr ac aelodau eraill o'r Uned Forwrol yn patrolio'r ardal hon yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg er mwyn rhoi cyfarwyddyd i forwyr a rhoi cyngor iddynt ynghylch y sefyllfa.

***3.4*** Mae'n ofynnol bod Bwiau Marcio Parth y Traeth tymhorol ar draeth Abererch ac ar draeth Marian y De yn cael eu rhoi yn eu lle cyn 26 Mai. Bydd yn rhaid i'r bwiau marcio Cyfyngiadau Cyflymder, sydd wedi eu lleoli yng ngheg yr harbwr, fod yn eu lle erbyn 1 Mai. Bu bwiau tymhorol o'r fath yn effeithiol iawn ac maent wedi bod yn ddull o leihau'r nifer o ddigwyddiadau o gychod yn torri'r cyfyngiad cyflymder gofynnol yn y rhan gul hon o'r harbwr lle gellir mordwyo.

***3.5*** Gan fod yr holl angorfeydd cyffredinol yn yr Harbwr Allanol wedi'u cynnal a'u cadw i safon uchel am nifer o flynyddoedd, ni ragwelir y bydd angen gwaith archwilio a chynnal a chadw pellach gan ddefnyddio contractwr plymio yn ystod 2012. Bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwaith o'r fath o fewn y gyllideb yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau diffyg cyffredinol yr harbwr.

## ***4 -*** ***<u>Digwyddiadau - Events</u>***

***4.1*** Rydym yn falch o adrodd fod gŵyl boblogaidd 'Wakestock' wedi'i threfnu i'w chynnal ym Masn y Gogledd, harbwr Pwllheli o'r 5$^{ed}$ hyd at y 7$^{fed}$ o Orffennaf 2012. Mae'r trefnwyr wedi gwneud cais am hawl fyddai'n caniatáu i'r Ŵyl gychwyn gyda sesiwn hyfforddi ar y dydd Mercher ac yna byddai'r cystadlaethau'n cael eu cynnal ar y dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Mae digwyddiad tebyg wedi cael ei drefnu i ddigwydd ar draeth Abersoch ddydd Sul 8 Gorffennaf. Nid yw'r Uned Forwrol wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i drefnwyr y digwyddiad ymestyn cyfnod y digwyddiad.

***4.2*** Atodir calendr manwl, er gwybodaeth, o'r cystadlaethau hwylio Cenedlaethol a Rhyngwladol sydd wedi'u trefnu i'w cynnal ym Mhwllheli yn 2012. Mae'r gwaith arbennig a gwblhawyd gan Glwb Hwylio Pwllheli a'i lwyddiant yn denu digwyddiadau hwylio mawr i Bwllheli i'w ganmol. Bydd aelodau'n cael eu diweddaru ynglŷn â'r sefyllfa bresennol ynghylch yr Academi Hwylio yn y cyfarfod.

***4.3*** Fel yr adroddwyd wrth Aelodau o'r blaen, mae'r amser yn prysur ddod pan ddaw'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd i rym yn 2015. Er y bydd cyflawni'r meini prawf llym ynghylch Dyfroedd Ymdrochi, fel y'u sefydlwyd gan y Gyfarwyddeb newydd, yn heriol mewn nifer o ardaloedd, ni ragwelir y bydd Ansawdd Dyfroedd Ymdrochi ym Marian y De yn cael ei effeithio. Mae safon dyfroedd ymdrochi Pwllheli wedi bod yn gyson iawn dros y chwe blynedd

ddiwethaf a disgwylir y bydd proffil Dyfroedd Ymdrochi ym Mhwllheli yn derbyn safon 'Rhagorol' dan y Gyfarwyddeb newydd yn 2015.

## 5 - ***<u>Llithrfa Gyhoeddus – Public Slipway</u>***

***5.1*** Mae'r llithrfa a ddefnyddir gan y cyhoedd i lansio cychod a'u tynnu allan o'r dŵr wedi'i lleoli ger swyddfa'r harbwr o fewn ardal yr Harbwr Allanol ym Mhwllheli. Rheolir y llithrfa gan yr Harbwr Feistr ac ef sy'n gyfrifol am gasglu'r ffioedd lansio a sicrhau bod pob cwch wedi'i gofrestru gyda Chyngor Gwynedd.

***5.2*** Yn ystod yr amser prysuraf yn y tymor hwylio rhwng mis Ebrill a mis Medi, fel arfer mae'r llithrfa yn cael ei rheoli saith diwrnod yr wythnos rhwng 09.00 a 17.00 bob dydd. Er bod y llithrfa'n boblogaidd ac yn cael ei defnyddio gan nifer o gychod, yn enwedig yn ystod tywydd braf, mae angen llawer o adnoddau staffio i'w rheoli. Mae goruchwylio'r llithrfa yn golygu bod yn rhaid i nifer o staff fod yn bresennol ar y safle gydol y dydd ac er bod hyblygrwydd yn nhrefn y gwaith, ni ellir cwblhau rhai tasgau oherwydd bod yn rhaid i staff ddyrannu rhan o'u dyletswyddau i reoli'r llithrfa.

***5.3*** Roedd yr incwm a gafwyd drwy gasglu ffioedd lansio yn 2011 fel a ganlyn:-

- Cychod pŵer = £2,282
- Badau Dŵr Personol = £2,227

- Cyfanswm Incwm y Llithrfa = £4,509

Mae'n bwysig nodi nad yw'r cyfanswm incwm o lansio yn cynnwys y Ffioedd Cofrestru nac ychwaith yr incwm a geir gan gwsmeriaid sy'n prynu Trwydded Lansio Dymhorol. Caniateir i gwsmeriaid sydd â Thrwydded Lansio Dymhorol lansio eu cychod ar unrhyw lithrfa yng Ngwynedd.

***5.4*** Bwriad yr Uned yw sicrhau bod holl agweddau'r Harbwr yn cael eu rheoli yn unol â disgwyliad y cwsmer. Mae presenoldeb Harbwr Feistr yn yr harbwr ac o'i gwmpas yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn. Mae'n ofynnol i unrhyw aelod o staff yr Uned sydd ar ddyletswydd fedru rhoi cyfarwyddiadau i gwsmeriaid a'u cynghori ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r harbwr. Ar adegau, oherwydd gofynion sicrhau bod y llithrfa yn cael ei rheoli'n effeithiol, ni ellir cwblhau rhai tasgau o fewn yr harbwr. Bwriad yr Uned yw sicrhau bod yr Harbwr Feistr (neu ei ddirprwy), yn medru patrolio'r harbwr ar droed neu mewn cwch yn effeithiol ac y bydd yr Harbwr Feistr yn medru cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn.

***5.5*** Er mwyn bod mewn sefyllfa i fedru rheoli'r harbwr yn effeithiol gydag adnoddau prin, dylid rhoi ystyriaeth i allanoli rheolaeth y lithrfa. Rhagwelir y bydd cwmnïau neu unigolion priodol yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu bwriad drwy dendr cyhoeddus. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn medru casglu'r ffioedd lansio gan y rhai sy'n talu ffi lansio ddyddiol. Byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd sicrhau bod yr holl gychod sy'n cael eu lansio ar y lithrfa wedi'u cofrestru gyda Chyngor Gwynedd ond ni fyddai hawl gan yr ymgeisydd i godi Ffi Gofrestru neu godi ffi ychwanegol neu ailgodi tâl ar ran y Cyngor ar gwsmeriaid sydd â Thrwydded Lansio Flynyddol Gofynnir am farn yr aelodau yn y cyfarfod.